



Gorffennol Digidol Digital Past

2014

Technolegau newydd ym meysydd treftadaeth, dehongli ac estyn-allan

12^{fed}-13^{eg} o Chwefror, 2014

Gwesty St George, Y Promenâd, Llandudno

Cynhadledd ddau ddiwrnod sy'n canolbwyntio ar dechnolegau digidol arloesol ar gyfer casglu, dehongli a lledaenu gwybodaeth am safleoedd ac arteffactau treftadaeth yw Gorffennol Digidol. Bellach yn ei chweched flwyddyn, bydd cynhadledd Gorffennol Digidol 2014 yn cael ei chynnal yn Llandudno, a bydd yn cynnig cyfuniad o bapurau, seminarau, a gweithdai ac arddangosiadau ymarferol a fydd yn edrych ar y technegau arolygu technegol a dehongli diweddaraf a'u cymwysiadau ym meysydd dehongli, addysgu a diogelu treftadaeth.

Galwad am gyfraniadau

Rydym yn ceisio cyflwyniadau gan y rheiny sy'n gweithio ar brosiectau arloesol yn y meysydd a amlinellir isod, naill ai fel ymchwilyr neu staff, a all gyfrannu i'r gynhadledd flaengar hon. Gellir cyfrannu ar ffurf cyflwyniadau, seminarau neu weithdai ffurfiol, neu'n fwy anffurfiol drwy'r sesiwn 'anghynhadledd' neu stondin arddangos. Manylir isod ar y gwahanol ddulliau.

Themâu:

Y ddwy brif thema a fydd yn cael sylw eleni yw **Arolygu Technegol** a **Chanlyniadau**. Gall pynciau gynnwys, ond nid ydynt wedi'u cyfyngu i: Sganio Daearyl, Geoffiseg, LiDAR, Ffotogrametreg, awyrennau di-beilot, GIS, e-gyhoeddi, argraffu 3D, delweddu, ac adnoddau gwe.

Papurau:

Papurau 20 munud wedi'u cyflwyno yn y dull confensiynol, sef fformat cyflwyniad a PowerPoint. Bydd 4 papur o'r fath ym mhob sesiwn a chyfnod holi a thrafod o 10 munud ar ddiwedd pob sesiwn. Oherwydd yr amserlen dynn iawn, mynnir bod y siaradwyr yn cadw at yr amser a neilltuir iddynt.

Sesiynau seminar:

Seminarau 45 munud i hybu trafod mater neu bwnc neilltuol. Arweinir pob seminar gan ddau neu dri o siaradwyr a fydd yn rhoi cyflwyniadau o 5 munud ar un o'r themâu uchod wedi'u dilyn gan 30 munud o drafodaeth gyffredinol gyda'r cynrychiolwyr.

Gweithdai:

Cynhelir y gweithdai ar fore'r 13^{eg} o Chwefror. Dylent gynnig arddangosiadau ymarferol neu hyfforddiant ar agwedd benodol ar dechnoleg ddigidol sydd â chymwysiaid treftadaeth. Gall gweithdai fod yn un sesiwn o 90 munud neu'n ddwy sesiwn o 40 munud.

Os hoffech gymryd rhan yn y gynhadledd, anfonwch fraslun (100-150 o eiriau) o'ch cyflwyniad / trafodaeth seminar / gweithdy arfaethedig i susan.fielding@rcahmw.gov.uk ynghyd â'ch enw a manylion eich sefydliad.

Sesiwn Anghynhadledd:

Cyfres o sesiynau 15 munud y gall unrhyw un sy'n mynychu'r gynhadledd eu bwcio. **Gellir bwcio sesiwn o 9.30am ymlaen ar ddiwrnod cyntaf y gynhadledd yn unig, a'r cyntaf i'r felin gaiff falu.** Bydd y sesiynau hyn yn caniatáu i gynadleddwyr wneud cyflwyniad ar unrhyw brosiect, ymchwil neu fater yn ymwneud â defnyddio technoleg ddigidol ym maes treftadaeth. Gall cyflwyniadau fod wedi'u paratoi ymlaen llaw gan ddefnyddio PowerPoint, neu gallant fod yn ymateb i drafodaethau neu faterion eraill sy'n gysylltiedig â'r digwyddiad.

Stondinau:

Bydd nifer cyfyngedig o stondinau Arddangos neu Boster ar gael i'w llogi am y ddau ddiwrnod. Bydd stondinau mawr ar gael am £100 neu stondinau Poster am £50 (nid oes angen talu TAW). Gellir eu bwcio ar y ffurflen gofrestru pan fydd ar gael.

Dyddiad Cau ar gyfer Cyflwyniadau

Y dyddiad cau ar gyfer cyflwyno papurau, seminarau a gweithdai yw **Dydd Gwener, yr 11^{eg} o Hydref 2013**. Caiff penderfyniadau eu gwneud ar ôl ystyried rhinweddau'r cyflwyniadau unigol a sut maent yn cyd-fynd â'r rhaglen gyffredinol, a hysbysir yr ymgeiswyr erbyn Dydd Gwener, y 18^{fed} o Dachwedd 2013.

Bydd y rheiny sy'n cyflwyno papur, seminar neu weithdy yn gallu cofrestru am ddim. **Byddwch cystal â sylwi: er ein bod ni'n barod i dderbyn cyflwyniadau sy'n cynnwys mwy nag un siaradwr, ni allwn gynnig ond un cofrestriad am ddim ar gyfer pob cyflwyniad.** Ni allwn, yn anffodus, gynnig treuliau pellach.

Yn achos ymgeiswyr tramor, gellir ystyried y posibilrwydd o gyflwyno papurau drwy we-ffrydio byw.

I gael mwy o wybodaeth, neu atebion i unrhyw gwestiynau, cysylltwch â Susan Fielding yn susan.fielding@rcahmw.gov.uk neu ar 01970 621219.